



Polisi Cwricwlwm

CREWYD
CREWYD GAN
CADARNHAWYD GAN Y CORFF LLYWODRAETHOL
DYDDIAD ADOLYGU

09/2016
G Evans
20/11/2018
Tachwedd
2019

Diffinio'r Cwricwlwm

Y cwricwlwm yw'r gweithgareddau a drefnwn er mwyn hybu dysgu ac annog datblygiad personol y plant. Ein hamcan yn Ysgol Bro Teifi yw addysgu plant fel eu bod yn tyfu'n oedolion cadarnhaol a chyfrifol, a fydd yn gallu gweithio a chyd-weithio gydag eraill, ac a fydd yn gallu cyrraedd eu llawn botensial am eu bod wedi derbyn y wybodaeth a'r sgiliau angenrheidiol.

Bwriad yr ysgol yw hyrwyddo'r gwerthoedd o barch a gofal ac mae disgwyliadau a safonau uchel yn greiddiol i holl agweddau o fywyd yr ysgol. Ein nod yw darparu addysg a chwricwlwm a fydd yn paratoi'r disgyblion ar gyfer byd gwaith ac i fod yn ddinasyddion cyfrifol a fydd yn cyfrannu'n hyderus at fywyd economaidd, cymdeithasol a diwylliannol Cymru a'r Byd yn yr Unfed Ganrif ar Hugain.

Mae'r ysgol yn rhwymedig i sicrhau mynediad cyfartal i gyfleoedd addysgol o safon uchel ar gyfer pob disgybl a'u galluogi felly i gyrraedd eu potensial llawn. Trefnir y cwricwlwm yn Ysgol Bro Teifi er mwyn hybu datblygiad deallusol, moesol, personol, cymdeithasol, ieithyddol a chorfforol y disgyblion.

Yn ogystal â'r rhaglen ffurfiol o wersi mae hefyd yn cynnwys y rhaglen anffurfiol o weithgareddau allgyrsiol ynghyd â'r nodweddion hynny yn y "cwricwlwm cudd" sy'n llunio ethos yr ysgol. Bydd yr ysgol yn sicrhau bod y cwricwlwm yn ateb gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol a gofynion y Fframweithiau Llythrennedd, Rhifedd a Chymhwysedd Digidol, ond mae'r cwricwlwm hefyd wedi'i gynllunio i gwrdd ag anghenion pob disgybl. Bydd yn adlewyrchu cymeriad yr ysgol, ei hamgylchiadau a'i hethos unigryw ac yn adlewyrchu cymuned yr ysgol.

Mae'r ystyriaethau canlynol yn greiddiol i'r cwricwlwm yn yr ysgol:

- Bod yr ysgol yn anelu at fod yn ganolfan o ragoriaeth o safbwynt dysgu ac addysgu
- Bod yr ysgol yn anelu at berfformio yn uwch nag sy'n ddisgwyliedig o safbwynt safonau cenedlaethol
- Bod y dysgu a'r addysgu wedi ei wahaniaethu yn unol â gallu pob disgybl
- Bod yr ysgol yn rhoi yr un gwerth ar gymwysterau galwedigaethol a rhai academaidd
- Bod y pynciau sy'n cael eu cynnig yn adlewyrchu'r farchnad swyddi leol ac yn datblygu gweithwyr a fydd yn hybu economi Cymru gyfan.
- Bod rhieni/gofalwyr yn rhan o'r trafodaethau wrth gynllunio a chyflwyno pynciau
- Bod llwyddiannau pob dysgwr yn cael eu dathlu yn briodol

Deilliannau'r Cwricwlwm

Bydd cwricwlwm Ysgol Bro Teifi yn:

- arwain at gymwysterau a fydd yn werthfawr i gyflogwyr ac i sefydliadau Addysg Uwch
- diwallu gofynion statudol Llywodraeth Cymru
- paratoi disgyblion o safbwynt gwneud dewisiadau addas ar ddiwedd CA3, CA4, CA5
- cynorthwyo disgyblion i ddatblygu sgiliau rhifedd, llythrennedd a digidiol pwrpasol
- helpu disgyblion i feithrin agweddau positif ynglŷn â gwerthoedd moesol, parch at eraill, goddefgarwch crefyddol a rhywiol
- hybu'r defnydd o ddulliau blaengar o addysgu a dysgu
- hybu ysbryd o gydweithio â sefydliadau eraill megis ysgolion uwchradd cyfagos/ colegau addysg bellach/y gymuned ehangach

Egwyddorion Sylfaenol

Mae gan bob disgybl yn yr ysgol hawl i'r canlynol:

Cwricwlwm eang a chytbwys

Dylai'r ysgol ddarparu cwricwlwm sydd yn hybu datblygiad deallusol a chorfforol disgyblion yn yr ysgol, ac mewn cymdeithas; ac yn paratoi ar gyfer cyfleoedd, cyfrifoldebau a phrofiadau bywyd fel oedolion.

Dylai pob gweithgaredd cwricwlaidd roi ystyriaeth i bolisiâu perthnasol eraill y Llywodraeth, AALL a'r ysgol e.e. Iaith, Asesu, Cyfle Cyfartal, AAY ac yn y blaen.

Cwricwlwm hyblyg

Dylai'r cwricwlwm a ddarperir dalu sylw i anghenion a galluoedd disgyblion unigol. Dylai dulliau a deunyddiau addysgu a dysgu fod wedi'u gwahaniaethu mewn modd priodol ac yn amrywiol i weddu i'w diben er mwyn herio'r holl ddisgyblion ond hefyd cwrdd a'u gofynion addysgiadol penodol.

Cwricwlwm perthnasol

Dylai'r cwricwlwm a ddarperir dalu sylw llawn i anghenion y disgyblion, eu diddordebau a'u profiad fel dysgwyr ac unigolion, a fod yn berthnasol i'w bywydau yn y dyfodol.

Cydlyniant

Dylai'r cwricwlwm sicrhau cydlyniant o fewn a rhwng pynciau, gofynion cyffredin y cwricwlwm a'r cwricwlwm cudd.

Dilyniant a pharhad

Dylai'r cwricwlwm fod wedi'i gynllunio o fewn ac ar draws yr ystod oedran er mwyn sicrhau dilyniant a pharhad yn y safonau a gyrhaeddwyd gan ddisgyblion ac yn ansawdd y dysgu a'r addysgu.

Integredd

Dylai'r ddarpariaeth gwricwlaidd sicrhau bod safonau cyrhaeddiad ac ansawdd y dysgu a'r addysgu yn cael eu cynnal a'u gwella yn barhaus. Ddylai'r cwricwlwm a'r asesiadau y tu mewn iddi gael eu darparu mewn modd sy'n sicrhau integredd yr ysgol a'r system addysg ehangach.

Effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd

Dylai'r ddarpariaeth gwricwlaidd sicrhau bod safon yr addysg a ddarperir ar gyfer disgyblion yn cael ei chynnal a'i chadw a'i gwella trwy ddefnydd effeithiol ac effeithlon o adnoddau.

Gweithredu'r Cwricwlwm

Y person sy'n gyfrifol am gydlynnu cwricwlwm Ysgol Bro Teifi yw Mr Gareth Evans, Dirprwy Bennaeth. Fe fydd Cydlynnydd y Cwricwlwm o dan arweiniad y Pennaeth yn gyfrifol am:

- yr holl elfennau statudol yn ymwneud â'r cwricwlwm
- sicrhau bod amser digonol yn cael ei glustnodi ar gyfer addysgu'r cwricwlwm
- sicrhau bod y Corff Llywodraethol yn rhan annatod o'r broses o wneud penderfyniadau yn ymwneud â'r cwricwlwm.

Bydd **Penaethiaid Ffês, Penaethiaid Cyfadran a Cydlynwyr Cwricwlaidd a Thraws-Gwricwlaidd** yn gyfrifol:

- am gynllunio tymor hir a thymor byr ar gyfer y rhaglenni dysgu perthnasol

- am sicrhau bod cynlluniau gwaith yn arwain at gynnydd o safbwynt safonau
- am sicrhau bod cysondeb o safbwynt darpariaeth o'r cwricwlwm o fewn y gyfadran ac ar draws y ffês.
- am sicrhau bod cyrsiau arholiad addas yn cael eu darparu ar gyfer y disgyblion
- am sicrhau bod addasrwydd a chysondeb o safbwynt asesu
- am sicrhau bod y Dirprwy Bennaeth yn ymwybodol o unrhyw newid i'r ddarpariaeth cwricwlaidd
- bod data cyrhaeddiad pob disgybl yn cael ei adolygu yn unol â gofynion y polisi asesu a bod y data yn sail i unrhyw benderfyniadau yn ymwneud â'r ddarpariaeth cwricwlaidd
- bod arfer dda yn ymwneud â'r cwricwlwm yn cael ei rannu gydag chyfadranau a sefydliadau eraill

Bydd **Athrawon Pwnc** yn gyfrifol am:

- sicrhau bod y cwricwlwm yn cael ei gyflwyno yn unol â gofynion y polisi hwn
- sicrhau bod eu gwybodaeth bynciol yn gyfredol
- ddadansoddi data yn seiliedig ar berfformiad disgyblion ac am ddefnyddio'r data i gynllunio'n briodol
- rannu arferion da yn ymwneud â darpariaeth cwricwlaidd
- gydwethio gydag athrawon eraill i ddatblygu eu sgiliau a manteisio ar unrhyw gyfleoedd Datblygiad Proffesiynol a fydd yn arwain at welliant o safbwynt darpariaeth

Bydd **disgyblion** yn:

- sicrhau bod llais ganddynt wrth i'r ysgol gynllunio'r cwricwlwm
- derbyn cefnogaeth ychwanegol os ydynt yn cael trafferthion gyda'u dysgu
- derbyn arweiniad arbenigol a chytbwys o safbwynt gwneud dewisiadau addas ar gyfer cyrsiau TGAU a dewisiadau Ôl-16

Bydd **rhieni/gofalwyr** :

- yn derbyn gohebiaeth a gwybodaeth gyfredol ynglŷn â chynnydd eu plentyn.
- yn derbyn gwybodaeth gyfredol ac adeiladol ynglŷn â'r cwricwlwm a'r opsiynau ar gyfer TGAU / Cysriau Ôl-16 ac hefyd o safbwynt unrhyw ddatblygiadau cwricwlaidd yn yr ysgol.

Monitro a Gwerthuso

Bydd y Corff Llywodraethol yn derbyn adroddiad blynyddol a thymhorol gan y Pennaeth yn seiliedig ar drefniadau a datblygiadau cwricwlaidd. Bydd y Corff Llywodraethol yn gyfrifol am adolygu'r polisi cwricwlwm ac yn asesu ei effeithlonrwydd. Bydd amcanion y polisi yn cael eu hyrwyddo ar draws yr ysgol.

Bydd Corff Llywodraethol Ysgol Bro Teifi yn sicrhau bod y gofynion statudol cwricwlaidd yn ymwneud â darparu ABCh, Addysg yn Ymwneud â Gwaith, Y Cwricwlwm Cymreig yn cael eu darparu.

Yn ogystal bydd Corff Llywodraethol Ysgol Bro Teifi yn sicrhau bod y gofynion yn ymwneud â darparu Addysg Gorfforol ac Addysg Grefyddol ar draws y Cyfnodau Allweddol yn cael eu darparu.

Trefniant y Cwricwlwm

Mae'r ysgol yn gweithredu system tair ffês sy'n pontio cyfnodau addysg cynradd ac uwchradd.


Ffês 1 – Dosbarth Meithrin i Flwyddyn 4

MEYSYDD DYSGU

Cynllunir i gwrdd â gofynion y Saith Maes Dysgu yn effeithiol lle caiff y gweithgareddau chwarae strwythuredig eu gwau i mewn i'r profiadau dysgu mewn ffordd sy'n ysgogi'r plant. Mae'r cwricwlwm wedi'i lunio i ategu a hyrwyddo sgiliau lles a phersonol, cymdeithasol, emosiynol, corfforol a deallusol pob plentyn. Defnyddir y dulliau canlynol:

- Cynllunio darpariaeth barhaus yn seiliedig ar ddiddordeb plentyn a'r adnoddau sydd ar gael. (Cynllunio Tymor Hir)
- Cynllunio cyfeodd i ymestyn profiadau / sgiliau. (Cyfoethogi'r Dysgu – Cynllunio Tymor Byr)
- Cynllunio ar gyfer tasgau ffocws. (Cynllunio Tymor Byr). Taflenni cynllunio tasgau ffocws sy'n cynnwys: y saith maes dysgu, cyfleoedd i ddatblygu'r dysgu, cyfeirio at Fframwaith Sgiliau, adnoddau dysgu, gwahaniaethu, asesu ar gyfer y dysgu, y ffordd ymlaen

Triongl Cynllunio: Mae'r model canlynol yn cael ei ddefnyddio fel rhan o'r broses o gynllunio ym mhob dosbarth:



- Creu mapiau meddwl i gyflwyno gwybodaeth ar agwedd benodol o fewn y 7 Maes Dysgu er mwyn datblygu sgiliau penodol. (Sgerbwd Syniadau Staff/Mapiau Meddwl disgyblion – Cynllunio Tymor Canolig)
- Adolygu'r sgiliau a gyflwynwyd yn wythnosol drwy tracio y sgiliau o'r 'Fframwaith ar gyfer Dysgu Plant 3-7 Oed yng Nghymru' er mwyn symud y dysgu ymlaen.
- Cynllunio tymhorol er mwyn sicrhau dyfnder ac addasrwydd y sgiliau a gyflwynir i'r plant ar draws y cwricwlwm yn ogystal ag yn y meysydd dysgu. (Cynllunio Tymor Canolig)
- Dilyn datblygiad unigol grwpiau o ddisgyblion / unigolion trwy dracio datblygiad yn y Saith Maes Dysgu

Mae Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwyllianol wrth wraidd y Cyfnod Sylfaen. Caiff y Maes Dysgu hwn ei gyflwyno a'i ddatblygu ar draws y cwricwlwm wrth i'r plant gymryd rhan mewn gweithgareddau dysgu trwy brofiadau, a gynhelir dan do ac yn yr awyr agored.

Ffês 2 a 3 – Blwyddyn 5 i Flwyddyn 13

Gweithredir yn ogystal system gyfadrannol yn yr ysgol gyda'r cyfrifoldebau am ei harwain yn syrtio dan ofal saith o benaethiaid cyfadrannol.

**Cyfadran y Gymraeg
Y Gyfadran Saesneg
Y Gyfadran Fathemateg
Y Gyfadran Wyddoniaeth,
Y Gyfadran Ddyniaethau
Y Gyfadran Gelfyddydau Mynegiannol
Y Gyfadran Dechnoleg a TG**

Anela'r strwythu yma i greu llinellau cyfathrebu ac atebolrwydd clir o fewn yr ysgol.

Fel ysgol pob oed ar gampws pwrpasol, mae trefniant y cwricwlwm a'r ffordd mae wedi ei hamserlenni yn anelu i wneud y defnydd gorau o adnoddau dynol a ffisegol yr ysgol er mwyn ymestyn a chyfoethogi profiadau dysgu yr holl ddisgyblion. Yn ffês 2 yn benodol gwelir llif o athrawon arbenigol uwchradd i mewn i flynyddoedd 5 a 6 er mwyn cyflwyno gwersi arbenigol o fewn Celfyddydau Mynegiannol a'r Dyniaethau.

Yr Amserlen

Mae'r ysgol yn rhedeg amserlen bythefnos sy'n cwrdd a'r gofynion statudol o ran amser cyswllt yn y dydd (21.5 awr i'r Cyfnod Sylfaen, 23 awr i CA2 a 25 awr i flynyddoedd 7-11).

Ffes 1 – Y Cyfnod Sylfaen

| | | |
|--------------|---|---|
| 9.00 | : | Cofrestru / Gwasanaeth / Munud i Feddwl |
| 9.30 | : | Gwers 1 |
| 10.30 | : | Egwyl Bore |
| 10.50 | : | Gwers 2 |
| 11.45 | : | Cinio |
| 1:00 | : | Cofrestr Prynhawn |
| 1.05 | : | Gwers 3 |
| 2.00 | : | Egwyl Prynhawn |
| 2.15 | : | Gwers 4 |
| 3.20 | : | Diwedd y Dydd |

Ffes 1 – Blynyddoedd 3 a 4

| | | | |
|--------------|---|---|------------------------------------|
| 9.00 | : | Cofrestru / Gwasanaeth / Munud i Feddwl | |
| 9.30 | : | Gwers 1 | |
| 10.30 | : | Egwyl Bore | |
| 10.50 | : | Gwers 2 | |
| 11.55 | : | Cinio | |
| 1:00 | : | Cofrestr Prynhawn | |
| 1.05 | : | Gwers 3 | |
| 2:00 | : | Egwyl Prynhawn | |
| 2.15 | : | Gwers 4 | Gwers 5 (amserlen Uwchradd) |
| 2.45 | : | | Gwers 6 (amserlen Uwchradd) |
| 3.25 | : | Diwedd y Dydd | |

Ffes 2 – Blynyddoedd 5 a 6

| | | |
|--------------|---|---|
| 9.00 | : | Cofrestru / Gwasanaeth / Munud i Feddwl |
| 9.30 | : | Gwers 1 |
| 10.30 | : | Egwyl Bore |
| 10.50 | : | Gwers 2 |
| 12.05 | : | Cinio |
| 1:00 | : | Cofrestr Prynhawn |
| 1.05 | : | Gwers 3 |
| 1.50 | : | Egwyl Prynhawn |
| 2.00 | : | Gwers 4 |
| 2.45 | : | |
| 3.30 | : | Diwedd y Dydd |

Yn ychwanegol i wersi y cwricwlwm cenedlaethol sydd o dan ofal athrawon dosbarth blwyddyn 5 a 6, ceir rhai gwersi o fewn y dosbarthiadau sydd o dan arweiniad athrawon uwchradd arbenigol. Diben y gwersi yma yw cyfoethogi profiadau dysgu'r disgyblion ond hefyd uwch-sgilio'r disgyblion fel eu bont yn gallu cyflawni eu potensial yn llawn.

Ffes 2 – Blynnydoedd 7 ac 8

| | | |
|--------------|---|--|
| 9.15 | : | Gwers 1 |
| 10.05 | : | Gwers 2 |
| 10.55 | : | Egwyl Bore (cenir cloch cyntaf am 11.13) |
| 11.15 | : | Gwers 3 |
| 12.05 | : | Gwers 4 |
| 12.55 | : | Cinio |
| 1.50 | : | Cofrestru Prynawn (cenir cloch gyntaf am 1.48) |
| 1.55 | : | Gwers 5 |
| 2.45 | : | Gwers 6 |
| 3.35 | : | Diwedd y Dydd |

Mae holl bynciau'r Cwricwlwm Cenedlaethol yn cael eu cyflwyno. Mae Drama yn cael ei gyflwyno i bob disgybl yn ogystal. Mae'r tabl isod yn amlinellu dosraniad y gwersi:

| Pwnc | Blwyddyn 7 | Blwyddyn 8 |
|---------------|-------------------|-------------------|
| Cymraeg | 7 | 7 |
| Saesneg | 7 | 7 |
| Mathemateg | 7 | 7 |
| Gwyddoniaeth | 6 | 6 |
| Hanes | 4 | 4 |
| Daearyddiaeth | 4 | 4 |
| Add Grefyddol | 3 | 3 |
| D a Th | 4 | 4 |
| Ffrangeg | 4 | 4 |
| Celf | 3 | 3 |
| Drama | 2 | 2 |
| Cerdd | 3 | 3 |
| TGCh | 2 | 2 |
| Ymarfer Corff | 4 | 4 |
| | 50 | 50 |

Mae disgyblion yn cael eu dysgu yn eu dosbarthiadau cofrestru ar y cyfan er byddant yn cael eu setio yn y pynciau craidd o flwyddyn 8 ymlaen. Gweithredir yn ogystal carwsel o fewn Technoleg a Chwaraeon er mwyn rhoi'r cyfle i ddisgyblion i brofi hoill agweddau'r pynciau hynny o fewn y flwyddyn (graffeg, tecstilau, bwyd, metel/pren)

Ffes 3 – Blwyddyn 9

| | | |
|--------------|---|--|
| 9.15 | : | Gwers 1 |
| 10.05 | : | Gwers 2 |
| 10.55 | : | Egwyl Bore (cenir cloch cyntaf am 11.13) |
| 11.15 | : | Gwers 3 |
| 12.05 | : | Gwers 4 |
| 12.55 | : | Cinio |
| 1.50 | : | Cofrestru Prynawn (cenir cloch gyntaf am 1.48) |
| 1.55 | : | Gwers 5 |
| 2.45 | : | Gwers 6 |
| 3.35 | : | Diwedd y Dydd |

Gwelir Blwyddyn 9 fel cyfnod pwysig er mwyn paratoi disgyblion am yr her o gyrsiau TGAU. Yma gwelir cynnydd yn yr amser dysgu o fewn y pynciau craidd er mwyn braenaru'r tir ar gyfer y pynciau holl-bwysig yma. Mi fydd cyfleoedd i ddisgyblion i ddechrau ar eu cyrsiau TGAU cyn ddiwedd Blwyddyn 9.

| Pwnc | Blwyddyn 9 |
|---------------|------------|
| Cymraeg | 8 |
| Saesneg | 8 |
| Mathemateg | 8 |
| Gwyddoniaeth | 9 |
| Hanes | 3 |
| Daearyddiaeth | 3 |
| Add Grefyddol | 2 |
| D a Th | 4 |
| Ffrangeg | 4 |
| Celf | 2 |
| Drama | 1 |
| Cerdd | 2 |
| TGCh | 2 |
| Ymarfer Corff | 4 |
| | 50 |

Ffes 3 – Blwyddyn 10 ac 11

| | | |
|-------|---|--|
| 9.15 | : | Gwers 1 |
| 10.05 | : | Gwers 2 |
| 10.55 | : | Egwyl Bore (cenir cloch cyntaf am 11.13) |
| 11.15 | : | Gwers 3 |
| 12.05 | : | Gwers 4 |
| 12.55 | : | Cinio |
| 1.50 | : | Cofrestru Prynawn (cenir cloch gyntaf am 1.48) |
| 1.55 | : | Gwers 5 |
| 2.45 | : | Gwers 6 |
| 3.35 | : | Diwedd y Dydd |

Ym mlwyddyn 10, mae'n ofynnol i ddisgyblion i astudio Cymraeg, Saesneg, Mathemateg, Gwyddoniaeth (Dwbl), Astudiaethau Crefyddol Statudol a Bagloriaeth Cymru. Yn ogystal, gallant ddewis pynciau o dri bloc opsiwn. Llunir y blociau opsiwn yn flynyddol er mwyn cwrdd a dymuniadau'r rhan fwyaf o ddisgyblion a byddant yn cael eu cymeradwyo gan y Corff Llywodraethol.

Er mwyn sicrhau gwerth am arian, ar adegau ni fydd cwrs TGAU yn rhedeg o ganlyniad i niferoedd bach. Yn ogystal i'r cymwysterau TGAU, mae modd i ddisgyblion i ddilyn cymwysterau galwedigaethaol mewn nifer fach o bynciau.

| Pwnc | Blwyddyn 10/11 |
|--------------------|----------------|
| Cymraeg | 7 |
| Saesneg | 7 |
| Mathemateg | 8 |
| Gwyddoniaeth | 12 |
| Opsiwn A | 6 |
| Opsiwn B | 6 |
| Opsiwn C | 6 |
| Chwaraeon | 3 |
| Ast. Cref Statudol | 1 |
| Bagloriaeth Cymu | 4 |
| CYFANSWM | 60 |

Ffes 3 – Blwyddyn 12 a 13

Mae'r ysgol yn cynnig ystod eang o bynciau yn unol â gofynion Mesur Sgiliau a Dysgu Llywodraeth Cymru. Mae'r patrwm opsiynau yn cael ei lunio gan Arweinydd y Cwricwlwm ac yn cael ei gymeradwyo gan y Corff Llywodraethol yn flynyddol. Mae pum bloc opsiwn ar gyfer y dewisiadau. Mae pob disgybl yn cael ei ysgogi i ddewis o leiaf tri phwnc a Bagloriaeth Cymru (mae hwn yn bwnc statudol yn Ysgol Bro Teifi oni bai fod gan ddisgyblion anghenion addysgol penodol a fyddai'n rhwystro eu mynediad i'r cymhwyster). Os nad yw disgyblion yn medru dilyn Bagloriaeth Cymru, yna trefnir gweithgareddau ychwanegol iddynt er mwyn ehangu ar eu cwricwlwm.

Mae disgyblion sy'n dilyn cyrsiau UG/Safon Uwch yn cael 9 gwrs 50 munud y bythefnos (450 munud). Os oes llai na 5 o ddisgyblion yn dilyn cwrs, yna lleheir y nifer o wersi i ystyried hyn. Mae gwersi galwedigaethol yn derbyn 8 gwrs y bythefnos.

Sut mae'r ysgol yn cwrdd â gofynion grŵpiau penodol o ddisgyblion?

Disgyblion Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)

Mae'r ysgol yn reddfodol yn gwneud ei gorau i gynnwys yr holl ddisgyblion yng ngweithgareddau'r ysgol. Gwnawn ein gorau i ddiwallu anghenion disgyblion penodol o fewn dosbarthiadau gallu cymysg drwy wahaniaethu a'r defnydd o gymorth o fewn y dosbarth. Er hyn, ar adegau, rhyddheir rhai disgyblion o wersi er mwyn cael cymorth i ddatblygu sgiliau llythrennedd Cymraeg/Saesneg neu rifedd. Lle gwneir hyn, byddwn yn sicrhau caniatâd rhieni'r disgybl perthnasol cyn eu datgymhwyso. Mae materion yn ymwneud â'r Cwricwlwm ADY yn cael sylw teilwng o fewn yr adran Gynhwysiant o dan ofal SENCO'r Ysgol Mrs Cei Pryderi.

Disgyblion Mwy Abl a Thalentog (MATH)

Mae disgyblion sy'n cael eu hadnabod fel disgyblion mwy abl a thalentog yn dilyn y cwricwlwm arferol. Mae strwythur setio'r ysgol yn caniatáu i'r disgyblion MATH i gael eu herio i gyrraedd eu potensial. Serch hynny mae'n ofynnol i adrannau i sicrhau bod tasgau dysgu addas yn cael eu paratoi ar gyfer y disgyblion MATH er mwyn gwneud yn siwr eu bod yn cael eu hymestyn ym mhob pwnc. Gwna'r ysgol y gorau o bob cyfle i ddarparu cyfleoedd a gweithgareddau cwricwlaidd amrywiol ychwanegol ar gyfer ein disgyblion MATH.

Cwynion ynglŷn â'r Cwricwlwm

Dylai unrhyw gwyn ynglŷn â'r cwricwlwm gael ei drafod yn y lle cyntaf gyda'r Pennaeth neu ei gynrychiolydd. Os nad oes modd datrys y gwyn ar y lefel yma yna dylid cyfeirio at bolisi cwynion y Corff Llywodraethol. Dylid cyfeirio unrhyw gwynion yn ymwneud ag elfennau statudol y Cwricwlwm tuag at yr Awdurdod Addysg Lleol.

Mr G Evans

Dirprwy Bennaeth

Hydref 2018